

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 2il Rhagfyr 2020, yn dechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

### 7. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs P. M. Jones, B. Mellor a P. Prendergast (na allai gysylltu).

### 8. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – TACHWEDD 2019

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr               | Swm £             | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau                       |
|------------|------------------------------|-------------------|---|
| 1055       | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl  | 2,625.00          | Ffioedd Rheoli TNCC Ch3                                       |
| 1058       | HSBC                         | 6.50              | Taliadau Banc 17 Medi – 16 Hydref 2020                        |
| 1059       | Gunsmoke Communications      | 1,440.00          | Ffi Rheoli Medi 2020  |
| 985        | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67            | Swyddog Apeliadau 20/21 Taliad 8 o 10                         |
| 984        | Cyngor Sir Ddinbych          | 736.00            | AANC 20/21 ar gyfer Swyddfa Ffordd Wellington – Taliad 8 o 10 |
| 1060       | CThem                        | 3,433.79          | Didyniadau PAYE Hydref 2020                                   |
| 1061       | Cronfa Bensiwn Clwyd         | 4,710.72          | Didyniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Hydref 2020              |
| 1062       | Staff Cyngor Tref y Rhyl     | 7,356.05          | Cyflogau Staff Tachwedd 2020                                  |
|            | <b>Cyfanswm taliadau</b>     | <b>£21,224.73</b> |   |

| Categori  | Disgrifiad                        | Swm           |
|-----------|-----------------------------------|---------------|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 23.57         |
| HSBC      | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod   | 0.67          |
| HSBC      | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod   | 0.67          |
| HSBC      | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod   | 0.67          |
| HSBC      | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod   | 0.67          |
|           | <b>Cyfanswm incwm</b>             | <b>£26.25</b> |

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad.

**9. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb      | Enw'r Cyflenwr                | Disgrifiad o'r Gwasanaeth  | Swm £             |
|-----------------|-------------------------------|--|-------------------|
| 1071            | Cyngor Sir Ddinbych           | Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Tiroedd 2020/21             | £36,886.28        |
| 1072            | Cyngor Sir Ddinbych           | Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw'r Gerddi Coffa 2020/21      | £6,778.08         |
| 1073            | BJS Solutions                 | 4 gliniadur i hwyluso gweithio o gartref ar gyfer staff              | £3,781.10         |
| 1074            | BJS Solutions                 | Adnewyddu meddalwedd gwrth-firws                                     | £179.94           |
| 1075            | Collisons Ltd                 | Cardiau Nadolig y Maer   | £79.82            |
| 1076            | Rhyl Steam Preservation Trust | Premiwm yswiriant ar vgyfer Billy a phlât enw 2020/21                | £122.00           |
| 1077            | Cyngor Sir Ddinbych           | Taliadau Gwasanaeth ar gyfer Ffordd Wellington Ebrill – Rhagfyr 2020 | £11,469.00        |
| <b>Cyfanswm</b> |                               |  | <b>£59,296.22</b> |

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

**10. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN HYDREF 2020 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/21**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) ar gynnydd a pherfformiad o gymharu gyda'r gyllideb.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

**11. POLISI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Yn unol â pholisi'r Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ar y cyfle blynyddol i'r aelodau enwebu unigolyn ar gyfer ystyriaeth (dosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Dywedodd Clerc y Dref bod gan yr aelodau hyd at 12.00pm ar ddydd Llun 7fed Rhagfyr i gyflwyno enw unigolyn iddo.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

**12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**13. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANN ÔL PUM MLYNEDD**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Cyllideb Flynyddol 2021/22, gan gynnwys Cynllun Adfer Cronfeydd Wrth Gefn diwygiedig Pum Mlynedd a lefel praesept (dosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau eu hystyried, eu newid a'u cymeradwyo i gyfarfod y Cyngor ar 16eg Rhagfyr.

**PENDERFYNWYD** *derbyn yr adroddiad a'i gymeradwyo i'w argymhell i gyfarfod y Cyngor ar 16eg Rhagfyr 2020.*

**14. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: .....

Dyddiad: .....